

Consensws a Gorchymyn Lefi CITB eich diwydiant chi, cyfrifoldeb a rennir



CONSENSWS

Efallai y gofynnir i gyflogwyr sy'n debygol o dalu Lefi o dan y Cynigion Lefi roi eu barn ar y Cynigion Lefi.

Mae CITB yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Ffurflenni Lefi diweddaraf i benderfynu a yw cyflogwr yn cael ei gynrychioli gan sefydliad rhagnodedig ai peidio.


Ar hyn o bryd mae CITB yn ymgynghori ag 14 o sefydliadau rhagnodedig yn ystod y broses Ymgynghori. Gellir gweld manylion y sefydliadau hyn ar wefan CITB.




YM MIS MAWRTH 2019:



Roedd dros 75,000 o gyflogwyr
adeiladu ar gofrestr y Lefi



Roedd bron i 30,000 yn
atebol i dalu'r Lefi



O'r 30,000 o dalwyr Lefi,
datganodd oddeutu 7,000 eu
bod yn cael eu cynrychioli gan
un o'r sefydliadau rhagnodedig



Bydd oddeutu 4,000
o gyflogwyr heb
gynrychiolaeth yn cymryd
rhan yn yr arolwg ffôn

CAMAU RHESYMOL YMARFEROL

Rhaid i sefydliad rhagnodedig gymryd 'camau rhesymol ymarferol' i dynnu sylw eu haelodau at y Cynigion Lefi a rhoi digon o amser a chyfle i'r aelodau hynny roi adborth i'r sefydliad rhagnodedig. Mae hyn yn galluogi'r sefydliad i ymateb yn ystyriol ar ran ei aelodau. Yna mae CITB yn cael yr ymatebion trwy gais ffurfiol i bob un o'r sefydliadau rhagnodedig.

Mae CITB yn darparu rhywfaint o gyfarwyddyd cyffredinol i'r sefydliadau rhagnodedig er mwyn sicrhau bod y gofynion yn cael eu diwallu. Fel isafswm mae'n rhaid i sefydliadau rhagnodedig:

- 1 Gofyn y Cwestiwn Consensws i'w haelodau sy'n debygol o dalu'r Lefi
- 2 Dim ond ceisio barn y cyflogwyr hynny sy'n debygol o fod yn dalwyr Lefi yn seiliedig ar y Cynigion Lefi
- 3 Tynnu sylw eu haelodau sy'n talu'r Lefi at y Cynigion Lefi a'r Cwestiwn Consensws
- 4 Rhoi o leiaf un mis i aelodau sy'n debygol o dalu'r Lefi ymateb i'r Cwestiwn Consensws
- 5 Darparu tystiolaeth o sut maent wedi cael barn eu haelodau sy'n debygol o dalu'r Lefi.





Y CWESTIWN CONSENSWS

Yn ystod Consensws, mae CITB yn gofyn i'r sefydliadau rhagnodedig a sampl o'r cyflogwyr heb gynrychiolaeth:

"A ydych yn cytuno bod y Cynigion Lefi yn angenrheidiol i annog hyfforddiant digonol yn y diwydiant adeiladu?"

Gofynnir y cwestiwn hwn ar sail 'YDW/NAC YDW' a byddai unrhyw gyflogwr sy'n ymateb "DDIM YN GWYBOD" yn cael ei gofnodi fel 'NAC YDW'.

CANLYNIAD Y CONSENSWS

Ar ôl i ganlyniadau'r Consensws gael eu casglu, mae CITB yn cyflwyno'r canlyniadau i'r Adran Addysg ac fe'u cyhoeddir i'r diwydiant adeiladu ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol gadarnhau bod y gofynion ar gyfer y broses Gonsensws wedi'u cyflawni yn unol â'r Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol. Os yw'r canlyniadau'n dangos bod mwyafrif y cyflogwyr yn ôl nifer a gwerth Lefi yn cefnogi'r Cynigion Lefi, bydd y Llywodraeth yn gwneud Gorchymyn Lefi newydd.

Os nad yw Consensws yn dangos cefnogaeth ddigonol gan y diwydiant i'r Cynigion Lefi, yna bydd y Llywodraeth (gan gynnwys Llywodraethau'r Alban a Chymru) yn adolygu'r sefyllfa gyda CITB ac yn ystyried opsiynau pellach a fydd yn amddiffyn hyfforddi a datblygu sgiliau yn y diwydiant am y gorau gan gynnwys gwneud gorchymyn diofyn.

Consensws a Gorchymyn Lefi CITB eich diwydiant chi, cyfrifoldeb a rennir



BETH A PHRYD MAE CONSENSWS?

Bob tair blynedd, rhaid i CITB ymgynghori â chyflogwyr y diwydiant adeiladu ar ei **gynigion i ddarparu sgiliau a hyfforddiant i'r diwydiant adeiladu gan ddefnyddio cyllid Lefi.**

'Consensws' yw cam olaf y broses Ymgynghori hon, lle gofynnir y Cwestiwn Consensws: "A ydych yn cytuno bod y Cynigion Lefi yn angenrheidiol i annog hyfforddiant digonol yn y diwydiant adeiladu?" **Nid yw Consensws ynddo'i hun yn bleidlais ar ddyfodol CITB; mae'n rhoi llais ar ddyfodol sgiliau a hyfforddiant yn y diwydiant.**

Bydd y broses Gonsensws nesaf yn ystod haf 2020, gan ystyried Cynigion Lefi ar gyfer asesiadau a godwn ni yn 2021-23.



CYFRIFOLDEB A RENNIR AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU

Cyfrifoldeb CITB yw datblygu a gweithredu cynigion er budd y diwydiant adeiladu cyfan. Cyfrifoldeb pob cyflogwr a 'sefydliad rhagnodedig'* ('Federasiwn consensws') yw ystyried yn ofalus a fydd Cynigion y Lefi, yn eu barn nhw, yn cyflwyno'r hyfforddiant sydd ei angen er budd y diwydiant adeiladu cyfan nawr ac i'r dyfodol.

Mae'n bwysig nad yw cyflogwr yn canolbwyntio'n llwyr ar effaith y Cynigion ar eu sefydliad neu sector penodol.

***Sefydliadau rhagnodedig**

Sefydliad rhagnodedig yw sefydliad sy'n cynrychioli cyflogwyr sy'n debygol o fod yn dalwyr Lefi ac sydd â'r awdurdod i gynrychioli barn y cyflogwyr hynny.



CAMAU RHESYMOL YMARFEROL

Er mwyn ariannu gwaith CITB, gall y Llywodraeth basio Gorchymyn Lefi tair blynedd sy'n caniatáu i CITB gynhyrchu'r cyllid gofynnol trwy godi Lefi ar gyflogwyr y diwydiant adeiladu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Cyn y gall y Llywodraeth wneud hyn, rhaid i CITB ymgynghori â'r diwydiant i fodloni'r Llywodraeth bod mwyafrif y cyflogwyr (h.y. mwy na 50%) yn ôl nifer a gwerth, sy'n debygol o dalu'r Lefi, yn ystyried bod Cynigion CITB yn 'angenrheidiol i annog hyfforddiant digonol yn y diwydiant.'

Mae'r Gorchymyn Lefi yn nodi'r rheolau ar gyfer codi a chasglu'r Lefi, gan gynnwys:

- 1 Pa gyflogwyr fydd yn agored i'w dalu
- 2 Sut mae'r Lefi yn cael ei gyfrifo
- 3 Pryd mae'n rhaid ei dalu

PWY SY'N LLUNIO'R CYNIGION LEFI?

Mae grŵp o gynrychiolwyr y diwydiant ac arbenigwyr allanol, â chefnogaeth CITB, yn ffurfio Gweithgor y Lefi ('LWP'), a gynullir cyn y Gorchymyn Lefi nesaf. Mae'r grŵp yn cyfarfod i drafod, dadlau, datblygu ac argymhell 'Cynigion Lefi' a fydd yn galluogi CITB i gyflawni ei gynllun strategol ar gyfer y dyfodol. Profir yr argymhellion gyda Chynghorau'r Gwledydd CITB. Pan gytunir ar y Cynigion, mae'r LWP yn cyflwyno'i argymhellion i Fwrdd CITB i'w hystyried a'u cymeradwyo.



YMGYNGHORI

Os yw'r Bwrdd yn cymeradwyo'r Cynigion Lefi a argymhellir, rhaid i CITB ymgynghori â'r diwydiant adeiladu y flwyddyn cyn bod angen y Gorchymyn Lefi nesaf. Ar gyfer Gorchymyn Lefi 2021, bydd Ymgynghoriad yn digwydd yn 2020. Mae CITB yn ymgysylltu â'r diwydiant i egluro'r Cynigion Lefi a chasglu adborth y diwydiant. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth trwy Chynghorau'r Gwledydd CITB, gwefan CITB, cyfathrebu uniongyrchol, arolygon ar-lein a fforymau cyflogwyr.

Ar ôl Ymgynghori, mae'r LWP yn ystyried unrhyw faterion neu bryderon a godir gan y diwydiant yn ofalus ac yna gwneir unrhyw newidiadau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i'r Cynigion Lefi cyn i'r LWP gyflwyno'r argymhelliad terfynol i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. Ar ôl ei gymeradwyo, gelwir y cam nesaf yn Gonsensws.



Sut mae CITB yn cefnogi'r maes adeiladu

Rydym yn **DENU** pobl i ymuno â'r diwydiant adeiladu trwy ein blaenoriaeth **GYRFAOEDD**.

Ein nod yw y byddwch yn gweld cronfa dalent ehangach. Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn siarad am yrfaeodd ym maes adeiladu, ehangu apêl ymuno y tu hwnt i grwpiau traddodiadol, strwythuro mentrau sy'n barod am waith, rhoi mwy o gefnogaeth i Brentisiaethau, a gwella'r gyfradd cyfnewid o Addysg Bellach i gyflogaeth.

Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain - bydd angen i gyflogwyr chwarae eu rhan drwy hyrwyddo eu cwmnïau a darparu'r swyddi sydd yn atynnu cyfnewid gyrfa i gyflogaeth.

Rydym yn **CEFNOGI** datblygu pobl i adeiladu Prydain well trwy ein blaenoriaethau **HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD** a **SAFONAU A CHYMWYSTERAU**.

Ein rôl ni yw sicrhau bod dull a chynnwys hyfforddi ac asesu yn bodloni eich anghenion, fel y bydd Safonau a Chymwysterau a ddefnyddir mewn hyfforddiant adeiladu yn gyson ac yn sicr.

Byddwn yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn berthnasol, cyfredol a hygyrch. Bydd y Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu yn rhoi mynediad i chi at rwydwaith o ddarparwyr tra bydd y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu yn gadael i chi weld yr hyfforddiant sydd gan eich pobl.

Yn sail i'n blaenoriaethau mae ein rhaglen ymchwil eang, sy'n dyfnhau ein dealltwriaeth o heriau adeiladu. Trwy bartneriaethau â Llywodraeth leol a chenedlaethol, rydym yn helpu i arwain buddsoddiad mewn sgiliau adeiladu fel blaenoriaeth.

Mae ein hystod o gyllid yn cefnogi cyflogwyr o bob maint i fuddsoddi mewn Prentisiaethau a chymwysterau; mae'n cefnogi cyflogwyr llai i fuddsoddi mewn hyfforddiant sy'n benodol i gwmnïau ac yn buddsoddi mewn rhaglenni ar draws y diwydiant i fynd i'r afael â materion mawr fel darpariaeth gyrfaoedd a hyfforddiant.

Trwy ein gwaith, ein nod yw helpu'r diwydiant adeiladu ym Mhrydain i ddatblygu gweithlu cydnabyddedig, arloesol o safon fyd-eang i sicrhau ansawdd yn yr amgylchfyd adeiladu.